



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Meddalwedd cyfieithu testun byw

## Datblygu meddalwedd cyfieithu arloesol i helpu llunio a chyhoeddi cynnwys byw cyfrwng Gymraeg

Mawrth 2024

### Cefndir a chyd-destun

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn gwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Mae gan y sefydliad gyfrifoldeb cyffredinol am wasanaethau rheilffordd ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau ac mae hefyd yn darparu cymorth ac arbenigedd ar gyfer prosiectau trafndiaeth Llywodraeth Cymru.

Roedd gan Trafnidiaeth Cymru ddwy wefan wahanol: un ar gyfer gwybodaeth gyffredinol a'r llall yn cyflwyno gwybodaeth benodol am y gwasanaethau trên. Penderfynwyd creu un wefan ddwyieithog fyddai'n cyfuno'r ddau wasanaeth yma.


### Beth wnaeth ysgogi newid?

Wrth ddatblygu'r wefan newydd, daeth i'r amlwg mai Saesneg oedd cyfrwng llawer iawn o'r wybodaeth oedd i'w gasglu o ffynonellau allanol gwahanol (megis ffrwd ymholiadau National Rail). O ganlyniad, roedd y wybodaeth yn ymddangos ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig. Golyga felly nad oedd y wefan yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg. Serch hynny, roedd y wybodaeth yma yn allweddol bwysig i'w rannu â thrigolion Cymru gan ei fod yn rhoi diweddariadau byw am wasanaethau trafndiaeth.

Roedd yn glir na fyddai cyfieithu pob testun i'r Gymraeg yn ymarferol gan fod testun newydd yn cael ei gyhoeddi'n fyw yn barhaus, ac nad oedd digon o adnoddau i ymgymryd â'r dasg honno. O ganlyniad, roedd yn rhaid i Trafnidiaeth Cymru feddwl yn arloesol ynglŷn â sut gellir datrys y broblem a sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu cael y wybodaeth yma yn eu dewis iaith.

### Sut rhoddwyd y cynllun ar waith?

Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, penderfynodd Trafnidiaeth Cymru i gaffael meddalwedd cyfieithu amser real (*real-time translation software*) newydd ar gyfer y wefan newydd.



Mae'r meddalwedd hwn yn cynnig nifer o nodweddion allweddol:

- **Integreiddio API:** Mae'n integreiddio'n ddi-dor â systemau a gwefan bresennol Trafnidiaeth Cymru, gan sicrhau bod unrhyw gynnwys Saesneg, sy'n bwydo mewn i'r wefan o ffynonellau allanol, yn cael ei gyfieithu a'i uwchlwytho yn syth i'r wefan yn Gymraeg.
- **Dysgu Peiriant:** Trwy fwydo cynnwys Cymraeg wedi'i gyfieithu i gof cyfieithu'r feddalwedd, mae'r feddalwedd yn ehangu ei chorpws, gan ganiatáu iddo ddysgu a gwella ansawdd y cyfieithu dros amser.
- **Rheoli Llif Gwaith:** Mae'n symleiddio'r broses gyfieithu, drwy ganiatáu i gyfieithwyr reoli eu llif gwaith yn uniongyrchol.

## Manteision y datblygiad

- **Cyfieithu cynnwys byw yn awtomatig:** Mae hyn wedi galluogi Trafnidiaeth Cymru i gynnal gwefan cwbl ddwyieithog. Mae hefyd wedi gwella profiad y defnyddiwr ar gyfer siaradwyr Cymraeg, trwy gyfieithu cynnwys allanol, a fyddai fel arall wedi bod yn uniaith Saesneg.
- **Llai o lwyth gwaith i staff cyfieithu:** Mae'r meddalwedd yn ymdrin â'r cyfieithiad cychwynnol, gan ryddhau cyfieithwyr i ganolbwyntio ar fireinio'r testun ar gyfer cywirdeb, tôn ac arlliw.
- **Caniatáu tôn llais unigryw:** Yn wahanol i feddalwedd cyfieithu arall, mae'r feddalwedd newydd yn galluogi creu 'tôn llais' cyson o fewn y cof cyfieithu, gan sicrhau bod yr holl gynnwys a gyfieithwyd i'r Gymraeg yn adlewyrchu hunaniaeth y sefydliad.
- **Allbwn mesuradwy:** Gall y feddalwedd fesur allbwn cyfieithu, gan ganiatáu i Trafnidiaeth Cymru olrhain a gwerthuso perfformiad y broses gyfieithu.

## Heriau ac ystyriaethau

Er bod dysgu a chyfieithu peirianyddol yn adnodd hynod ddefnyddiol a gwerthfawr, mae angen sicrhau bod trefniadau mewn lle i wirio cywirdeb cyfieithiadau o gynnwys a ddaw o ffynonellau allanol. Nid yw hyn yn disodli rôl y cyfieithydd, ond yn hytrach yn hwyluso'r gwaith ac yn ysgafnhau y faich o gyfieithu testun sydd yn newid yn gyson.

Mae'r prosiect hwn wedi amlygu gwerth sgiliau ac arbenigedd technegol o fewn y sefydliad er mwyn parhau i ganfod atebion arloesol i heriau wrth gynnig gwasanaethau cyfoes o safon uchel yn Gymraeg.

### Manylion cyswllt

Sefydliad:	Trafnidiaeth Cymru
E-bost:	lowri.joyce@tfw.wales
Swyddog cyswllt:	Lowri Joyce, Arweinydd Strategaeth y Gymraeg

### Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd ac mae angen i bobol Cymru gael hyder bod gwasanaethau Gymraeg sy'n cael eu cynnig iddynt o'r safon uchaf. Rwyf felly'n croesawu ymdrechion Trafnidiaeth Cymru wrth fynd i'r afael â'r her o gyfieithu cynnwys byw o ffynonellau allanol i'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod siaradwyr Gymraeg yn gallu derbyn y gwasanaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf yn eu dewis iaith.

Mae'r gallu i gyfieithu a llwytho cynnwys allanol yn ddi-dor mewn amser real yn sicrhau profiad cynhwysfawr a chyfartal i siaradwyr Gymraeg. Nodaf hefyd bod gallu'r feddalwedd i ddysgu a gwella dros amser yn cynnig dull cynaliadwy o gynnal ansawdd cyfieithu.

Mae'n rhaid pwysleisio fod mewnbwn y cyfieithydd yn parhau yn rhan allweddol o warantu cywirdeb, tŷn ac arlliw y testun a'r gwasanaeth, ac yn ei dro, cynnig sicrwydd llawn bod y gwasanaeth Gymraeg yn mynd i fod yn gywir.

Rwy'n croesawu pob ymdrech gan sefydliadau i ddefnyddio dulliau arloesol i gynnig a gwella gwasanaethau Gymraeg a chredaf bod hwn yn enghraifft gwerthfawr i sefydliadau eraill sy'n ceisio goresgyn heriau tebyg.